# PISA 2025 - Disgrifiad Swydd ar gyfer Gweinyddwyr y Prawf (Prif Astudiaeth - Cymru

## Cefndir

PISA (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) yw'r astudiaeth ryngwladol fwyaf yn y byd sy'n cymharu systemau addysg ledled y byd. Cynhelir yr astudiaeth mewn mwy na 90 o wledydd bob tair blynedd ac mae'n rhoi darlun unigryw o'r graddau y gall disgyblion o bob cwr o'r byd gymhwyso gwybodaeth a sgiliau mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth yn 15 oed.

Pearson sy'n gyfrifol am gynnal PISA 2025 mewn ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Caiff y Brif Astudiaeth ei chynnal yng Nghymru yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025. Mae Pearson yn recriwtio Gweinyddwyr Prawf allanol i weinyddu'r Brif Astudiaeth mewn ysgolion.

Bydd disgyblion yn cwblhau asesiad ar-lein dwy awr o hyd yn ogystal â holiadur. Felly, bydd angen i Weinyddwyr y Prawf allu defnyddio technoleg yn hyderus. Fodd bynnag, byddant yn cael hyfforddiant ar gyrchu a defnyddio'r platfform ar-lein a gofynnir i ysgolion sicrhau bod technegydd TG ar gael ar y diwrnod.

## Diben

Bydd Gweinyddwyr y Prawf yn gweinyddu'r asesiadau ar-lein a'r holiaduron i ddisgyblion mewn ysgolion dynodedig, gan sicrhau bod y gweithdrefnau rhyngwladol rhagnodedig yn cael eu dilyn yn llawn. Bydd y gweithwyr a fydd yn ymgymryd â'r rôl hon yn cael eu hyfforddi o bell ar y gweithdrefnau a bydd yn rhaid iddynt gwblhau gweithgareddau cyn yr hyfforddiant a bod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant/holi ac ateb fyw ddiwedd mis Awst 2025. Caiff union ddyddiad ac amser yr hyfforddiant gorfodol hwn eu darparu yn agosach at yr amser. Bydd y

gwaith paratoi ar gyfer y sesiwn hyfforddiant yn cynnwys darllen y llawlyfr i Weinyddwyr y Prawf a chwblhau cwisiau ar y cynnwys.

## Prif Gyfrifoldebau

- Cydgysylltu â Chydlynydd yr Ysgol neu'r Pennaeth mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer diwrnod y prawf, megis beth y dylai Gweinyddwr y Prawf ei wneud wrth gyrraedd yr ysgol, archebu ystafelloedd a threfn y desgiau/byrddau yn yr ystafell/ystafelloedd a ddefnyddir, a mynediad at gyfleusterau TG.
- Cadarnhau gyda'r ysgol bod yr iaith y gofynnwyd amdani (Cymraeg, Saesneg neu gyfuniad o'r ddwy) ar gyfer yr asesiad wedi cael ei gosod yn briodol gan Pearson.
- Sicrhau bod disgyblion yn cael yr asesiad cywir ar y diwrnod.
- Gweinyddu'r asesiadau a'r holiaduron i ddisgyblion yn unol â'r hyfforddiant a'r cyfarwyddiadau a ddarperir, gan eu cadw'n ddiogel bob amser.
- Sicrhau bod y sesiynau'n cael eu hamseru'n gywir, gan gofnodi amseroedd dechrau a gorffen y sesiwn ar y Ffurflen Adrodd am y Sesiwn.
- Cofnodi cyfranogiad disgyblion ar y Ffurflen Tracio Myfyrwyr.
- Ar ôl cwblhau'r asesiadau, sicrhau bod y dogfennau gweinyddu yn cael eu dychwelyd yn ddiogel i Pearson, gan ddefnyddio'r broses a amlinellir yn yr hyfforddiant.
- Sicrhau bod yr holiaduron i athrawon ac ysgolion wedi'u cwblhau.
- Mewn rhai achosion, bydd gofyn i Weinyddwr y Prawf osod, gweinyddu a phacio'r gliniaduron a ddarparwyd gan Pearson a fydd wedi cael eu cludo i ysgol ar gyfer asesiad. Caiff cyfarwyddiadau ychwanegol ar gyfer gweinyddu mewn ysgol o'r fath eu darparu.

## Profiad Hanfodol

- Profiad o weithio mewn ystafell ddosbarth.
- Hyder yn defnyddio TG.

## Profiad Dymunol

- Profiad o weithio gyda disgyblion oed uwchradd.
- Profiad o oruchwylio arholiadau.
- Mae gallu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol. (Bydd hyn yn effeithio ar ba ysgolion a gaiff eu dyrannu i chi).

## Cymwyseddau Gofynnol

- Y gallu i gadw at safonau gweithdrefnol penodedig.
- Sgiliau cyfathrebu llafar rhagorol.
- Sgiliau trefnu a gweinyddu da.
- Y gallu i weithio yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.

## Gofynion Hanfodol

- Bod ar gael i gwblhau hyfforddiant o bell ddiwedd mis Awst 2025.
- Bod ar gael o leiaf dri diwrnod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 15 Medi ac 14 Hydref 2025. Fel arfer, mae angen cyrraedd yr ysgol am 08.00 a gellir disgwyl gorffen tua 13.00.
- Car a thrwydded yrru er mwyn teithio i ysgolion.
- Tystysgrif fanylach gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os nad oes gennych dystysgrif a gyhoeddwyd ar ôl 15 Hydref 2023 (neu, os nad ydych wedi cofrestru â'r gwasanaeth diweddaru), cewch eich ardystio fel rhan o'r broses recriwtio.
- Ymrwymiad i ddiogelu a sicrhau lles pob disgybl.

## Gofynion Dymunol

- Efallai bydd angen aros oddi cartref dros nos o bryd i'w gilydd, er mwyn cyrraedd yr ysgol erbyn 08.00. Cofnodir argaeledd i aros dros nos cyn dyrannu ysgolion, a chaiff ysgolion eu dyrannu yn unol â hyn.

- Bydd cyfran o'r Gweinyddwyr Prawf a gaiff eu recriwtio yn cynnal profion drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ysgolion. Cofnodir sgiliau iaith cyn dyrannu ysgolion, a chaiff ysgolion eu dyrannu yn unol â hyn.